**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r PWYLLGOR SAFONAU ddydd Mercher 1 Mawrth 2017 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy am 10am.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

# AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Ionawr 2016**

5. **Materion yn codi**

6. **Cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad**

7. **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau**

8. **Er gwybodaeth – Cofnodion y cyfarfod Fforwm Safonau Gogledd Cymru**

9. **Materion Brys**

   Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**Dim**

**Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

**Yn bresennol**
Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young
Y Cyng. Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint

Gareth Owens, Dirprwy Glerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

**Ymddiheuriadau**
David Morris (Dirprwy Gadeirydd)

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2015 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 YMGYNGHORIAD AR NEWIDIADAU DEDDFWRIAETHOL I'R GYFUNDREFN FOESEGOL

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Glerc, ac roedd yn rhoi gwybodaeth am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y cod ymddygiad enghreifftiol i'r aelodau ac ar y gyfundrefn foesegol. Roedd un ddogfen ymgynghori yn ymdrin â'r ddau offeryn statudol arfaethedig wedi cael ei chyhoeddi, a dyma ofyn i'r aelodau gytuno ar yr ymateb arfaethedig fel y'i drafftiwyd gan y Dirprwy Glerc.

4.2 Yn y cyfarfodydd blaenorol yn 2014 a 2015, roedd yr Aelodau wedi cael gwybod bod Llywodraeth Cymru (LlC) yn ystyried diwygio'r cod ymddygiad i dynnu paragraffau, sef: 6(1)c sy'n gosod rhwymedigaeth ar yr aelodau i adrodd ynghylch achosion a amheuir o dorri'r cod ymddygiad; a 10(2)b sy'n creu buddiant personol pan fo materion ward yn gwrthdaro â dyletswydd y cynghorwyr tuag at yr awdurdod.

4.3 Roedd deddfwriaeth ymgynghorol ddrafft wedi cael ei chyhoeddi, gyda'r bwriad fod y newidiadau'n dod i rym erbyn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol yr awdurdodau lleol ym mis Mai. Hefyd, roedd deddfwriaeth ymgynghorol ddrafft wedi cael ei chyhoeddi mewn perthynas â sefydlu pwyllgorau safonau ar y cyd a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ymdrin â chwynion.

4.4 Bu'r Aelodau'n trafod y newidiadau arfaethedig a'r effaith bosibl ar aelodau'r ATA petai'r newidiadau'n cael eu rhoi ar waith. Cytunwyd ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad fel y'u drafftiwyd. Ond cafodd yr aelodau drafodaeth fanylach am yr adran ar y cyfnod atal, a chytunwyd i newid yr ymateb er mwyn awgrymu y dylid egluro'r ddeddfwriaeth fod gan yr Ombwdsmon, pryd y gwneir cwyn am gynghorydd yn agos at etholiad, bŵer penodol i barhau i ymchwilio i'r gŵyn honno ar ôl yr etholiad os caiff y cynghorydd ei ailethol. Felly hefyd, os yw'r ymchwiliad/gwrandawiad wedi cychwyn cyn yr etholiad, gall barhau ar ôl yr etholiad os yw'r cynghorydd yn cael ei ailethol. Hefyd, awgrymodd yr aelodau fod y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn glir ei bod yn amhriodol cael llai o gosb oherwydd amseriad y gwrandawiad, oherwydd gallai'r cynghorydd ystumio hynny.

4.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn amodol ar newid yr ymateb i'r cwestiwn am y cyfnod atal, fel y nodir uchod.**

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

5.1 Fel mater o lywodraethu corfforaethol da, mae'r Pwyllgor Safonau yn darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch ei weithgareddau yn ystod pob bob blwyddyn ariannol. Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r adroddiad ar gyfer 2015-16.

5.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'w gymeradwyo i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.**

6 AILBENODI AELOD ANNIBYNNOL

6.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc wybod i'r Aelodau fod cyfnod swydd A P Young yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2016. Roedd Mr Young yn gymwys i gael ei ailbenodi am un cyfnod arall tan 31 Mawrth 2020 ac roedd wedi dweud ei fod yn dymuno parhau ar y Pwyllgor.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi y bydd y cais am ailbenodiad yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub.**

7 UNRHYW FATER ARALL

7.1 Cyn cloi'r cyfarfod, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau ei bod wedi mynychu'r Gynhadledd Safonau ym mis Hydref 2015. Y thema oedd 'Safonau a Moeseg mewn Byd Newidiol' er mwyn adlewyrchu'r heriau y mae'r sector llywodraeth leol yng Nghymru yn eu hwynebu. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddar ac y byddai adroddiad llawn ar y gynhadledd yn cael ei anfon i bob aelod er gwybodaeth.**

**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**1 Mawrth 2017**

**CYFARWYDDYD DIWYGIEDIG AR Y COD YMDDYGIAD**

**Adroddiad gan Gareth Owens, Dirprwy Glerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r pwyllgor am ddiwygiadau i'r cyfarwyddyd a ddaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn newidiadau i'r Cod Ymddygiad.

## Cefndir

2 Cafodd y cod enghreifftiol cenedlaethol (sydd wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth) ei ddiwygio ym mis Mawrth 2016. Daeth y cod enghreifftiol hwnnw i rym ym mis Gorffennaf 2016.

3 Dros yr haf, fe wnaeth yr Ombwdsmon gyhoeddi cyfarwyddyd diwygiedig ar gyfer cynghorau sir ac awdurdodau tân ac achub (wedi'u hatodi yn yr atodiad). Dyma'r prif newidiadau yn y fersiynau diweddaraf:

- Rhagarweiniad – yn pwysleisio cyfrifoldebau personol i ddeall y Cod

- Mwy o eglurder ynglŷn â'r prawf 2 gam – a oes achos o dorri wedi digwydd? A oes angen gweithredu er lles y cyhoedd?

- Pwysleisio y bydd adroddiadau i Bwyllgorau Safonau neu'r Panel Dyfarnu yn cynnwys barn am fater a fu achos o dorri'r Cod ai peidio.

- Cyfarwyddyd pryd i adrodd ynghylch amheuon o dorri'r Cod, yn dilyn diddymu'r rheidrwydd i wneud hyn dan y Cod.

- Egluro beth gall yr aelodau ei wneud pan fo ganddynt fuddiant personol a rhagfarnus (yn dilyn cyflwyno'r hawl i wneud sylwadau ysgrifenedig pan fo'r cyhoedd yn gallu gwneud hynny hefyd).

4 Dosbarthwyd y cyfarwyddyd diwygiedig i aelodau'r awdurdod drwy eu cynghorau sir eu hunain. Felly, yr unig beth sydd angen i'r pwyllgor hwn ei wneud yw bod yn ymwybodol o'r diwygiadau.

**ARGYMHELLIAD**

5 Bod yr aelodau'n nodi'r cyfarwyddyd diwygiedig.

**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR SAFONAU**

**1 Mawrth 2017**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU**
**I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

1 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r adroddiad drafft atodol a gaiff ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Mawrth.

**Cefndir**

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

**Argymhelliad**

4 Gofynnir i Aelodau nodi a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma'r unfed adroddiad ar ddeg gan y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2016 hyd fis Mawrth 2017. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Mae cyfnodau swydd Celia Blomeley a Jane Eyton-Jones ar y pwyllgor yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

Dyma ddiwedd ail cyfnod y ddwy aelod felly nid ydynt yn gymwys ar gyfer cael eu hail-benodi. Caiff trefniadau i'w gwneud i hysbysebu'r swyddi hyn yn nes ymlaen yn 2017.

Hefyd, cynhelir etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017 ac felly rydym yn diolch i'r Cynghorwyr Evans a Dunn am eu cyfraniadau dros y pum mlynedd diwethaf.

<u>Aelodau annibynnol</u>
Celia Blomeley 01/01/2014 - 31/12/17
Jane A Eyton-Jones 01/01/2014 - 31/12/17
David Morris 01/09/14 - 31/08/18
Antony P Young 01/04/16 - 31/03/20

<u>Aelodau Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Brian Dunn (18/06/12 ymlaen)
Y Cynghorydd Jim G Evans (18/06/12 ymlaen)

**Presenoldeb a Materion**

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 1 Mawrth 2017 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young
Y Cyng Jim Evans, Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint.

Yn y cyfarfod hwnnw, cafodd yr aelodau ddiweddariad am gyfarwyddyd diwygiedig ar y cod ymddygiad. Nodwyd hefyd y cofnodion o gyfarfod y Fforwm Safonau Gogledd Cymru, ble bu i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus roi cyflwyniad yna sesiwn holi ac ateb.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni fu cwyn ynglyn ag aelod o'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18fed Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawliau cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliau.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.

# FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD CYMRU

# NORTH WALES STANDARDS COMMITTEES FORUM

17 Hydref 2016 am 11.00 am

Ystafell Bwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni

**PRESENNOL:** Gweler y rhestr enwau ynghlwm.

## 1. APWYNTIO CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Michael Wilson, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.

Penderfynwyd y byddai Cadeirydd yr Awdurdod ble cynhelir y cyfarfod yn Cadeirio'r cyfarfod ar bob achlysur.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. CYFLWYNIAD GAN OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd Mr Nick Bennett, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae copi o gyflwyniad yr Ombwdsman ynghlwm i'r cofnodion hyn, yn Atodiad 1 (copi Saesneg yn unig).

Esboniodd yr Ombwdsman, mewn perthynas â Datrys Anghydfodau yn Lleol, y byddai'n croesawu ymestyn hynny i'r Cynghorau Tref a Chymuned - ond dywedodd nad oedd am orchymyn hynny. Dywedodd mai mater i bob Pwyllgor Safonau oedd hynny. Cadarnhaodd hefyd bod Un Llais Cymru yn gweithio ar hyn gyda'r Cynghorau Cymuned a'i fod yn croesawu hynny.

O safbwynt cwynion, esboniodd yr Ombwdsmon bod nifer y cwynion yn ymwneud â chynghorau sir wedi lleihau ond bod nifer y cwynion yn ymwneud â chynghorau trefn a chymuned wedi cynyddu (roedd y sefyllfa wedi cyfnewid rhwng y ddau ers y llynedd). Roedd 3 cyngor cymuned yn gyfrifol am oddeutu traean o'r holl gwynion yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned - Glyn Nedd, Abertyleri, a Chyngor Tref Caergybi.

Mae'r prawf dau gam yn parhau i gael ei ddefnyddio a'r bwriad yw cael gwared ar unrhyw gwynion blinderus. Fodd bynnag, mae swyddfa'r Ombwdsmon yn dal i weld cynnydd yn nifer y cwynion (10% y flwyddyn) gyda'r Swyddfa'n derbyn 4,000 ymholiad a 2,000 o gwynion y llynedd. Dywed yr Ombwdsmon bod 76% o'i

adnoddau'n cael eu defnyddio ar ymchwiliadau iechyd. Er hynny, fe wnaeth yn glir ei fod yn cymryd cwynion o dorri Cod Ymddygiad aelodau etholedig yn ddifrifol iawn pan eu bod yn ymwneud â bwlio, anonestrwydd neu gamddefnyddio grym.

Mae gan swyddfa'r Ombwdsman gyllideb o £4 miliwn ac mae 58 aelod o staff.

Canmolodd yr Ombwdsmon y Fforwm ac roedd yn credu ei fod yn beth buddiol iawn i'w gael rhwng Awdurdodau Gogledd Cymru. Esboniodd y byddai'n hapus iawn i gyfarfod â'r Fforwm ar sail fwy rheolaidd os byddai hynny'n ddefnyddiol.

## 4. SESIWN CWESTIWN AC ATEB GYDAG OMBWDSMAN GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae copi o Gwestiynau ac Atebion yr Ombwdsman ynghlwm i'r cofnodion hyn, yn Atodiad 2 (copi Saesneg yn unig).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ombwdsmon am ei bresenoldeb yn y cyfarfod.

<u>Toriad: 12-12.10. Yr Ombwdsman yn gadael</u>.

## 5. AMLDER CYFARFODYDD

Cododd y Cadeirydd y mater o ba mor aml y dylid cynnal cyfarfodydd y Fforwm. Cynigiodd y Cadeirydd y byddai dwywaith y flwyddyn yn fuddiol. Ystyriwyd bod hyn yn gyfartaledd da, yn arbennig yn sgil sylwadau'r Ombwdsmon yn cefnogi'r Fforwm. Dywedwyd hefyd ei bod yn bwysig ychwanegu eitemau defnyddiol i'r Agenda; nodwyd bod presenoldeb yn dda yn y cyfarfod hwn, mae'n debyg oherwydd bod yr Ombwdsman yn bresennol. Mae'n bwysig bod yr agenda yn denu pob i fod eisiau bod yn bresennol. Trafodwyd hefyd pwy ddylai wneud y trefniadau; yr awdurdod ble cynhelir y cyfarfod i fod yn gyfrifol am yr agenda a threfniadau ystafell ayb.

**<u>Penderfynwyd</u>**: Cynnal cyfarfod o'r Fforwm ddwywaith y flwyddyn, ar sail rota ar gyfer pob awdurdod, gyda'r awdurdod ble cynhelir y cyfarfod yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar bob achlysur.

## 6. COFRESTR O DDIDDORDEBAU

Codwyd y mater gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas â'r gofrestr ddiddordebau safonol ar gyfer aelodau. Esboniwyd nad yw'r meddalwedd gan modgov yn dangos opsiwn Cymraeg i alluogi aelodau i lenwi eu cofrestr safonol ar-lein - mae'r hyn sy'n ymddangos ar y we yn y pendraw yn ddwyieithog, ac mae'r aelod yn gallu bwydo'r wybodaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ond ar hyn o bryd Saesneg yn unig yw'r ffurflen. Dywedodd modgov y byddai'n fodlon diweddaru'r meddalwedd er mwyn caniatáu tudalen Gymraeg, ond am gost o £10,000. Gofynnwyd a oedd Awdurdodau eraill yn cael yr un broblem, ac a fyddai'r holl Awdurdodau'n fodlon cyfrannu tuag at gost datrys y mater, er budd pawb, am ffracsiwn o'r gost.

Nid oedd pryder am hyn wedi codi yn yr Awdurdodau eraill ac felly roedd ansicrwydd ynghylch gaddo arian er mwyn datrys problem a oedd o bosib yn broblem nad oedd yn effeithio arnynt.

Defnyddir y system modgov gan y rhan fwyaf o'r Awdurdodau sy'n rhan o'r Fforwm (ond nid Parc Cenedlaethol Eryri), felly os oes problem, mae posibilrwydd y gallai'r Fforwm weithredu gyda'i gilydd i'w datrys. Ond mae pob Awdurdod wedi gwneud cytundeb ar wahân gyda modgov ac felly, er bod tebygrwydd bod y systemau yn debyg, efallai bod gwahaniaethau yn y fanyleb a gytunwyd o dan y cytundeb. Mae'n rhaid i bob Awdurdod felly wirio eu cytundeb ac yna gellir dod i farn ar y cyd. Os yw'n broblem i bob Awdurdod, cytunwyd y byddai gohebiaeth gan y Fforwm h.y. yr holl Awdurdodau yn gweithredu ar y cyd, yn cyfleu'r neges yn gryfach.

**Penderfynwyd:** Y byddai'r holl Awdurdodau'n gwneud ymholiadau am eu cytundeb gyda modgov ac yn adrodd yn ôl i'r Fforwm fel bod unrhyw gamau, os oes angen, yn cael eu cymryd ar y cyd yn hytrach nag gan Awdurdodau unigol.

## 7. HYFFORDDIANT CYFRYNGU

Yn sgil sylwadau'r Ombwdsmon y byddai'n cefnogi hyfforddiant cyfryngu er nad oedd ganddo'r gyllideb i gynnig cefnogaeth ariannol i syniad o'r fath, gofynnwyd a oedd aelodau'r Fforwm yn dymuno hyfforddiant o'r fath, ac os hynny, a oedd unrhyw syniadau ynghylch ymhle y gellid cael cefnogaeth ariannol.

Roedd rhywfaint o awydd am hyn ond byddai'n rhaid gwrthbwyso cost hyfforddiant o'r fath yn erbyn y ffaith mai dim ond ychydig, os o gwbl, fyddai angen ei ddefnyddio. Efallai y gellid ystyried ffynonellau cyllido eraill.

**Penderfynwyd**: Gwneud ymholiadau erbyn cyfarfod nesaf y Fforwm fydd yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir Ddinbych.

## 8. CYFARFOD NESAF

Ym mis Mawrth/Ebrill 2017 – i'w gynnal gan Gyngor Sir Ddinbych

Diwedd y cyfarfod 12.45